# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 14 Awst 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 17 Awst 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 28 Awst 2018 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd. Craig ab Iago

Aelod Cabinet dros Dai, Diwylliant a Hamdden

---

**Pwnc :**

Mabwysiadau Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun y Gwasanaeth Archifau.

---

**PENDERFYNIAD –**

I fabwysiadau Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun y Gwasanaeth Archifau, er mwyn cydymffurfio gydag Achredu sef Safon Cenedlaethol Archifau.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodol

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| **Enw a theitl yr Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Thai |
| **Enw a theitl Awdur yr Adroddiad:** | Lynn C. Francis, Prif Archifydd |
| **Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:** | 14-08-18 |
| **Llofnod yr Aelod/au Cabinet:** | Craig ab Iago |

**Pwnc:** Mabwysiadu Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun y Gwasanaeth Archifau i gydymffurfio gydag Achredu sef Safon Cenedlaethol Archifau.

*"Achrediad Gwasanaethau Archifau yw safon y DU i wasanaethau archifau. Mae'r safon yn diffinio arfer da ac yn dynodi safonau cytunedig a, thrwy hynny, yn annog ac yn cefnogi datblygiad."*

*Manteision y Cynllun:*
*Proffesiynoldeb: dull i ddatblygu ac atgyfnerthu proffesiynoldeb sector archifau'r DU.*
*Perfformiad: safon ansawdd ledled y DU sy'n cynnig meincnod a symbyliad i fesur perfformiad, cydnabod cyrhaeddiad, sicrhau gwerth am bres a sbarduno gwelliant parhaus*
*Proffil: dull o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o archifau, gan feithrin hyder a hygrededd o fewn y rhiant-sefydliadau ac yn allanol.*
*Pobl: proses i helpu gwasanaethau archifau addasu ac ymateb i anghenion a diddordebau defnyddwyr ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu.*
*Partneriaethau: dull o helpu archifau addasu ac ymateb i anghenion a diddordebau defnyddwyr ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu.*
*Cynllunio: fframwaith cadarn i hwyluso blaengynllunio, gwella gweithdrefnau a pholisi, a lleihau'r risg i'r sefydliad.*
*Nawdd: cydnabyddiaeth sy'n dangos gwasanaethau o ansawdd i gefnogwyr, rhoddwyr a chyrff rhoi grantiau, gan gryfhau ceisiadau am arian, denu rhoddion dyngarol a meithrin ffydd ymhlith buddsoddwyr.*

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**
I fabwysiadu Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun y Gwasanaeth Archifau

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

- Mae Safonau Achredu yn nodi bod angen i'r dogfennau gael eu cymeradwyo yn swyddogol er mwyn derbyn Achrediad.
- Sicrhau fod gan y Gwasanaeth Archifau weithdrefnau priodol a phroffesiynol mewn lle ac yn cael eu dilyn.
- Uchafu Cyfleodd i dderbyn grantiau.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**
Sicrhau gweithdrefnau priodol a safonol i'r Gwasanaeth Archifau a derbyn cymeradwyaeth lawn gan y Panel Achredu Cenedlaethol.

Mae Gwasanaethau Archifau y DU yn dilyn canllawiau safonau cenedlaethol Achredu ble mae'n ofynnol cael Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun.

Mae'r Polisi Datblygu Casgliadau yn gosod pwrpas y Gwasanaeth Archifau. Mae'n nodi be sy'n ofynnol yn statudol i'r Gwasanaeth gasglu, amrediad yr hyn a gesglir, a'r hyn na gesglir, sut y datblygir y casgliadau a'r canllawiau a ddilynir.

Mae'r Blaengynllun yn gosod y Gwasanaeth Archifau o fewn ei gyd-destun ac yn cyfleu gweledigaeth y Gwasanaeth o safbwynt gweithredu pwrpas y Gwasanaeth dros y cyfnod penodol, sef i warchod etifeddiaeth y sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau er mwyn cynnig profiadau a fydd yn cyfoethogi, ysbrydoli, addysgu yn ogystal â mwynhau.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid –

"Derbyniais gadarnhad gan awdur yr adroddiad na fydd unrhyw ymhlygiad ariannol o fabwysiadu'r Polisi Datblygu Casgliadau a Blaengynllun y Gwasanaeth Archifau argymhellir yma. Ymhellach, deallaf bydd sawl mantais gweithredol wrth i'r Gwasanaeth Archifau fabwysiadu'r Polisi, felly rwy'n cefnogi'r argymhelliad."

Swyddog Monitro –
"Mae'r camau a argymhellir yn yr adroddiad yn synhwyrol a phriodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb".

## Gwasanaeth Archifau Gwynedd

## Polisi Datblygu Casgliadau

### Datganiad Cenhadaeth

Pwrpas Gwasanaeth Archifau Gwynedd yw gwarchod etifeddiaeth archifol y sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau er mwyn cynnig profiadau a fydd yn cyfoethogi, ysbrydoli, addysgu yn ogystal â mwynhau.

### Amcanion y Polisi Datblygu Casgliadau

Prif amcan y polisi yw cyfleu sut yr ydym yn cyflawni pwrpas y Gwasanaeth o gasglu a chadw Archifau gan felly ddiogelu treftadaeth archifyddol y sir. Dylid darllen a defnyddio'r polisi yn gyfochr â Blaengynllun y Gwasanaeth yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill.

### Statws Statudol a Chyfreithiol y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Ddeddfau Llywodraeth Leol 1962 a 1972 yn ogystal ag Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

Yn unol â'r cynllun wnaed oddi tan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 mae'r gwasanaeth wedi trosglwyddo casgliadau a brofwyd i fod yn eiddo i Gonwy gyda chaniatâd eu hadneuwyr. Mae trosglwyddiadau o'r fath yn amodol ar yr egwyddor fod cyfanrwydd y grwpiau archifol yn cael eu cadw cyn belled ag y bo hynny yn ymarferol ac yn bosibl.

Mae swyddfeydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd wedi eu dynodi fel mannau adneuo ar gyfer cofnodion cyhoeddus gan yr Arglwydd Ganghellor o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn cael ei adnabod fel man adneuo gan Gorff Cynrychioladol yr Eglwys yng Nghymru ac fe dderbynnir cofnodion sy'n ymwneud â'r ardal fel ag y diffiniwyd yn ei gytundeb â'r Gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn cael ei adnabod gan Feistr y Rholiau fel man adneuo swyddogol ar gyfer cofnodion Maenorol a'r Degwm o dan y Ddeddf Cyfraith Eiddo (Gwelliant), 1924 a'r Ddeddf Degwm, 1936.

Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau archifyddol diweddaraf gan gynnwys:

- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958
- Deddf Llywodraeth Leol 1962
- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
- Deddf Diogelu Data 1998

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Amgylcheddol 2004

**Amrediad casglu**

Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn derbyn deunydd tuag at ei gasgliad craidd cyn belled ag y bo'r deunydd yn ymwneud â'r siroedd hanesyddol Sir Gaernarfon a Sir Feirionydd, ar wahân i eitemau o du allan i'r ardal sydd â chysylltiad agos â'r ardal neu sydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o Wynedd.

Diffinnir dogfennau fel tystiolaeth sydd wedi ei ysgrifennu â llaw, cofnodion mewn ffurf brintiedig, mapiau, cynlluniau, darluniau topograffaidd, ffotograffau, tystiolaeth lafar, cofnodion wedi eu creu gan gyfrifiadur neu declyn digidol, sain, tapiau fideo a ffilm. Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn casglu archifau ym mhob un o'r fformatau yma sydd yn ymwneud â Gwynedd ac y tybir eu bod yn unigryw ac o werth hanesyddol tymor hir.

Bydd y gwasanaeth felly yn derbyn:

- Cofnodion Cyngor Gwynedd ei hun, ei rhagflaenwyr, ac unrhyw gorff dilynol.
- Cofnodion awdurdodau lleol eraill a chyrff statudol sy'n gweithredu oddi mewn i Wynedd
- Cofnodion Cyhoeddus fel ag a gynigir i'r gwasanaeth dan dermau'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus
- Cofnodion sefydliadau, busnesau, unigolion a gweithgareddau eraill sydd yn berthnasol i hanes Gwynedd
- Cofnodion eglwysig sydd wedi eu dynodi gan Esgobion Bangor a Llanelwy
- Cofnodion enwadau crefyddol eraill sy'n gweithredu yng Ngwynedd

Ni fydd y gwasanaeth yn derbyn:

- Cofnodion sydd yn ymwneud ag ardaloedd y tu allan i'r ardal a ddiffiniwyd uchod os nad:-
  - Yw'r cofnodion yn ffurfio rhan ganolog o'r casgliad
  - Fod y cofnodion yn ychwanegu at gasgliadau penodol a ddelir yn barod
  - Neu mewn amgylchiadau eithriadol ar sail dymuniad y perchennog ac mewn ymgynghoriad â unrhyw fan adneuo arall
- Dyblygiadau, os nad y tybir eu bod yn ychwanegu at y casgliadau a ddelir yn barod
- Llungopïau neu ddeunydd wedi ei gopïo os nad yw'r gwreiddiol bellach wedi peidio bod
- Deunydd printiedig neu wedi ei gyhoeddi os nad yw'n ategu at y casgliadau a ddelir
- Bydd creiriau yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Amgueddfeydd, neu os ydynt wedi eu derbyn gydag eitemau archifyddol fe'u trosglwyddir at y Gwasanaeth Amgueddfeydd

**Datblygu'r Casgliadau**

Ni fydd y Gwasanaeth yn ceisio cynrychioli unrhyw farn hanesyddol neu enwadol penodol wrth gasglu cofnodion ond yn hytrach adlewyrchu mor wrthrychol ag sydd yn bosibl holl agweddau o orffennol a phresennol y sir.

Mae gan gasgliadau a ddelir ar hyn o bryd nifer o gryfderau, yn arbennig felly'r casgliadau diwydiannol, ystadau a'r sesiwn chwarter. Datblygir casgliadau drwy:

- Cysylltu â sefydliadau sy'n adneuo cofnodion cyhoeddus;
- Cysylltu â pheriglorion sy'n adneuo cofnodion plwyfi;
- Cynnal cysylltiadau ag adneuwyr presennol;
- Cynnal arolygon casgliadau sydd yn adnabod bylchau o fewn y casgliadau;
- Cysylltu â grwpiau lleol ac unigolion o fewn ardaloedd sydd yn cael eu tangynrychioli o fewn y casgliadau;
- Codi ymwybyddiaeth drwy ein gwaith ymgysylltu ac addysg o fylchau yn ein casgliadau;
- Cydweithio gydag Uned Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd.

Mae gwendidau o fewn y casgliadau wedi eu hadnabod ac mae'r meysydd dilynol wedi eu blaenoriaethu ar hyn o bryd:

- Mae ardaloedd daearyddol arbennig wedi eu tangynrychioli ac rydym yn parhau i wneud cysylltiadau o fewn yr ardaloedd hynny er mwyn derbyn deunydd newydd
- Mae cofnodion ysbytai wedi eu tangynrychioli felly rydym wedi cysylltu â Swyddogion perthnasol oddi mewn i'r GIG ac rydym yn cydweithio i adnabod deunydd priodol i'w adneuo.
- Mae straeon unigolion a chymunedau sy'n dyddio o'r 1960au ymlaen wedi eu tangynrychioli. Adnabyddir dogfennau a hanes llafar o'r cyfnod yma fel meysydd y dylai'r gwasanaeth eu datblygu.

**Derbyn Casgliadau**

Bydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn derbyn dogfennau drwy rodd, pryniant ac ar adneuaeth yn unol ag amodau cyffredinol Amodau Adneuo'r Gwasanaeth, gydag unrhyw amodau ychwanegol i'w cynnwys ar sail trafodaeth gyda phob adneuwr yn unigol. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn derbyn dogfennau drwy drosglwyddiad gan Uned Cofnodion Modern Cyngor Gwynedd.

**Didoli a derbynodi**

Bydd pob casgliad yn cael ei ddidoli yn unol â Pholisi Didoli'r Gwasanaeth gan staff archifyddol cymwys cyn cael eu derbynodi gyda llaw ac yn electroneg.

**Mynediad**

Bydd casgliadau yn cael eu catalogio yn unol â blaenoriaethau catalogio'r Gwasanaeth a deddfwriaethau perthnasol cyn y rhoddir mynediad cyhoeddus iddynt yn ddibynnol ar unrhyw ofynion cyfrinachedd a / neu ddymuniad yr adneuwr.

Bydd unrhyw gyfyngiadau mynediad ar gasgliadau neu eitemau a roddir gan adneuwyr preifat yn cael ei drafod pan fo'r casgliad yn cael eu hadneuo er mwyn sicrhau fod mynediad cyhoeddus at y deunydd yn gallu cael ei roi o fewn cyfnod amser rhesymol.

**Gwaredu**

Bydd y gwasanaeth yn cadw at y Polisi Didoli a'r Amodau Adneuo bydd felly yn:

- Gwerthuso a dethol dogfennau na thybir iddynt fod o werth eu cadw'n barhaol gan ddychwelyd neu waredu'r dogfennau yn unol â dymuniad ac anghenion yr adneuwr
- Trosglwyddo grwpiau o archifau i fan adneuo mwy addas os teimlir y byddai'r dogfennau a defnyddwyr y dogfennau in elwa o'u hadleoli

**Adolygiad**

Ysgrifennwyd y polisi hwn ym mis Hydref 2017 ac fe'i cymeradwywyd gan y Pennaeth Economi a Chymuned ac Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Thai ym mis Awst 2018. Bydd yn cael ei adolygu ymhen 5 mlynedd neu ynghynt pe byddai amgylchiadau yn gwneud hynny'n angenrheidiol.

# Blaengynllun Gwasanaeth Archifau Gwynedd 2017-2019








Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir y Gwasanaeth | 3-5 |
| Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleon a Bygythiadau (SWOT) | 6 |
| Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd | 7-9 |
| Adolygiad o'r Blaengynllun 2015-2017 | 10-11 |
| Blaengynllun 2017-2019 | 12-20 |


*Lluniau clawr o'r chwith i'r dde: Diwrnod Meddiannu; Tocyn Aur a dderbyniodd bob plentyn a fynychodd gweithgareddau'r Penwythnos Anferthol I ddathlu Roald Dahl; Poster yn hysbysebu (i) arddangosfa o waith Reginald Hallward, atgyweirwyd y dogfennau gyda grant NMCT (ii) arddangosfa o waiith gwydr gyda ysgolion lleol a ysbrydolwyd gan waith Hallward (iii) arddangosfa o waith yr artist Morgan Griffith a ysbrydolwyd gan ddeunydd o'r Archifdy)*

## Amcan y Gwasanaeth Archifau

Nôd Gwasanaeth Archifau Gwynedd yw gwarchod etifeddiaeth archifol y sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau er mwyn cynnig profiadau a fydd yn cyfoethogi, ysbrydoli, addysgu yn ogystal â mwynhau.

Yn deillio o'r nôd uchod mae gweithgareddau'r gwasanaeth. Er mwyn gwireddu'r gwaith mae'r Gwasanaeth yn gweithio o fewn polisïau'r Cyngor, yr Adran a'r uned ac yn ogystal yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill o fewn a thu allan i'r gymuned archifol.

### Gwaith y Gwasanaeth

Sefydlodd Sir Gaernarfon Archifdy yn 1947 a sefydlwyd Archifdy yn Sir Feirionnydd yn 1952. Pan newidiwyd ffiniau y siroedd yn 1974 sefydlwyd Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn cynnal dau Archifdy yng Nghaernarfon a Dolgellau, Gwasanaeth Addysg a Gwasanaeth Cadwraeth.

Gwasanaeth Archifau

Yn statudol mae'n ofynnol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaeth i gadw a rhoi mynediad i gofnodion, a gwneir hyn drwy gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958
- Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962
- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 – Adran 60
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Mae Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd wedi eu hadnabod fel mannau dynodedig i gadw a rhoi mynediad i gofnodion cyhoeddus yn unol a Deddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac 1967. Mae'r Gwasanaeth wedi ei gydnabod drwy gytundeb gyda Chorff Cynrychioli yr Eglwys yng Nghymru fod y Gwasanaeth wedi ei ddynodi fel man i gadw cofnodion eglwysig

Prif weithgareddau'r Gwasanaeth yw:

- Casglu deunydd perthnasol i hanes Gwynedd yn unol â'n polisi casglu
- Gwarchod deunydd i safon cenedlaethol
- Catalogio i safon rhyngwladol
- Cynnal ystafelloedd ymchwil
- Cynnal storfeydd i safon BS5454
- Safle wê gyda chatalogau archifau ar-lein
- Gwaith ymchwil ar gyfer unigolion, cyrff cyhoeddus a phreifat, cyfryngau a chyhoeddwyr
- Ateb ymholiadau
- Cynghori ar faterion amrywiol ee cynllunio, a data cyrff niferus ar beth sy'n bwysig i'w archifo o ran y gyfraith ac o ran etifeddiaeth
- Gweithdai addysg gydol oes ac ysgolion undydd
- Cyrsiau mynediad
- Dyletswyddau statudol ee llysoedd, Hawl i Wybodaeth, Diogelu Data
- Arddangosfeydd
- Cyfrannu'n sylweddol at waith a rhaglen y swyddog addysg
- Darlithoedd/sgyrsiau yn y gymuned
- Mynediad i ddeunydd mewn sefydliadau eraill
- Cynnal gwasanaeth atgynhyrchu

Gwasanaeth Addysg

Penodwyd Swyddog Addysg Archifau yn gyntaf gan yr hen Sir Gaernarfon yn ôl yn 1973 a datblygodd y swydd dros y blynyddoedd gydag ad-drefnu llywodraeth leol i gynnwys y Gwasanaeth Archifau a'r Gwasanaeth Amgueddfeydd.

Prif weithgareddau'r Gwasanaeth yw:

- Darparu deunydd i ysgolion a cholegau
- Ymweld ag ysgolion
- Cynnal gweithdai yn yr archifdai

- Codi ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant
- Cynghori athrawon a darlithwyr
- Hybu gwaith traws cwricwlaidd
- Cyfrannu at Addysg gydol Oes

Ariennir y Gwasanaeth yn rhannol gan Ysgolion y sir drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae 88% o ysgolion cynradd y sir wedi ymrwymo i'r cytundeb ar gyfer 2017-2020.

Gwasanaeth Cadwraeth

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cadwraeth yn ystod yr 1950au. Drwy dderbyn a chasglu deunydd mae'n bwysig fod modd eu gwarchod ar gyfer y dyfodol pa bynnag eu cyflwr, yma mae rôl y Gwasanaeth Cadwraeth yn hanfodol drwy asesu, cynghori ac atgyweirio. Drwy gael uned Gadwraeth mae modd rhoi gofal uniongyrchol i gasgliadau. Mae'n elfen annatod o'r gwarchodaeth yr ydym yn ddarparu. Prif weithgareddau'r Gwasanaeth Cadwraeth yw:

- Monitro amgylchedd yr archifdai yn ôl y Safon Prydeinig
- Diogelu ac atgyweirio'r casgliad
- Darparu gwasanaeth rhwymo llyfrau i'r awdurdod a chleientiaid
- Gwaith cynllun rheoli argyfwng i'r gwasanaethau
- Codi incwm i'r uned drwy ddarparu gwasanaeth cadwraeth i gyrff allanol

**Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleon a bygythiadau'r Gwasanaeth**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Casgliadau cyfoethog yn llawn potensial<br>• Cynnal Adain Gadwraeth<br>• Cynnal Gwasanaeth Addysg i Ysgolion<br>• Cynnal Gwasanaeth a ystyrir yn werthfawr gan ddefnyddwyr<br>• Canran o gatalogau ar gael ar-lein<br>• 2 adeilad yn cyrraedd y safonau disgwyliedig<br>• Gwasanaeth dwyieithog | • Toriadau i'r gyllideb wedi arwain at leihau oriau a nifer o staff<br>• Ôl-groniad catalogio<br>• Angen mynd i'r afael a dogfennau digidol a digido casgliadau<br>• Proffil isel o fewn y Cyngor |
| **Cyfleon** | **Bygythiadau** |
| • Cyfleoedd i drosglwyddo amcanion y sir o safbwynt treftadaeth a diwylliant<br>• Adain Gadwraeth y rhoi cyfle i gynhyrchu incwm<br>• Cyfleoedd i gydweithio ag unedau eraill yn y Cyngor a gyda sefydliadau amrywiol<br>• Cysylltiadau cryf gyda sefydliadau eraill yn y Sir megis Parc Cenedlaethol a'r Brifysgol<br>• Cysylltiadau gyda'r cyfryngau a chyhoeddwyr | • 'Chwaneg o doriadau ar y gorwel<br>• Ychydig o adnoddau i ddelio gyda heriau digido a chadwedigaeth ddigidol , gall peidio ag ymateb arwain at y Gwasanaeth fod yn amherthnasol yn y dyfodol<br>• Nifer defnyddwyr yn lleihau |

**Cyngor Gwynedd**

Mae'r Gwasanaeth Archifau yn ran o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd. Rhennir gwaith yr Adran i dri maes. Adnabuwyd maes y Gwasanaeth Archifau fel 'Cefnogi Cymunedau Cryf' sydd hefyd yn cynnwys yr uned Adfywio Cymunedol, Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid, a Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau .

Datganiad cenhadaeth y maes yw: "Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd fydd yn helpu i greu cymunedau gwydn; cefnogi cynhwysiad pobl yn eu cymunedau a mynd i'r afael a thlodi. Yr ydym yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i drigolion ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu llawn botensial. Er mwyn creu cymunedau atyniadol, mae'r Adran hefyd yn hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau ac yn gwarchod a dathlu ein diwylliant a threftadaeth."

Mae'r Adran yn cyfrannu at bolisïau corfforaethol a Chynllun Strategol y Cyngor, https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Gwynedd-2017-2018/Cynllun-Gwynedd-2017-18.pdf. Mae'r Cynllun Strategol 2017-2018 yn ymestyniad o Gynllun Strategol 2013-2017. Mae'r Cynllun wedi ei baratoi i gwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol http://www.thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf ac yn cyfeirio at sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at nodau llesiant y Ddeddf gan bennu 13 amcan i gyflawni'r nodau llesiant. Ceir 7 nodiant llesiant:

1. Cymru Lewyrchus
2. Cymru Gydnerth
3. Cymru Iachus
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau gydlynus
6. Cymru a diwylliant bywiog
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Mae'r Gwasanaeth Archifau yn cyfrannu at y Cynllun Strategol drwy 3 maes blaenoriaeth:

- Casglu, Cadw Rhannu – Gwarchod dogfennaeth archifol Gwynedd
- Rhannu, Cydweithio a Hyrwyddo – Rhoi Mynediad at ddogfennau archifol Gwynedd
- Cyfrannu a chydweithio corfforaethol

Cyfrannir at nodau llesiant a amlinellir yn y Cynllun Strategol drwy y gweithgareddau canlynol:
*(Gellir gweld y gweithgareddau a rifir yn llawn yn y blaengynllun ar tudalennau 12 - 20)*

**Cymru Lewyrchus** – Blaenoriaethau 2.2. a 2.5
Cyfrannir drwy gynnal Gwasanaeth Addysg i Ysgolion a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli sydd yn fodd i unigolion ennyn hyder, cymdeithasu a chyfrannu tuag at gyflogadwyedd.

**Cymru gydnerth** – Blaenoriaethau 1.1, 1.2, 2.1
Cyfrannir drwy dderbyn a rhoi mynediad at ddeunydd ble gellir ei ddefnyddio i adnabod newid yn yr amgylchedd.

**Cymru iachach** – Blaenoriaethau 2.4, 2.5
Cyfrannir drwy gefnogi prosiectau iechyd a lles, a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli sy'n fodd i ennyn hyder a gwella lles.

**Cymru sy'n fwy cyfartal** – Blaenoriaeth – 1.1, 2.1, 1.4, 1.5, 1.6
Cyfrannir drwy dderbyn casgliadau sy'n adlewyrchu pob elfen o gymdeithas gan roi mynediad diduedd wyneb yn wyneb ac yn ddigidol

**Cymru o gymunedau cydlynus**- Blaenoriaeth 1.1, 1.2, 1.11, 2.1, 2.2
Cyfrannir drwy gasglu, rhoi mynediad a hyrwyddo'r casgliadau sy'n annog ymdeimlad o le o fewn ein cymunedau

**Cymru a diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Holl flaenoriaethau 1 a 2
Cyfrannir drwy dderbyn, rhoi mynediad a hyrwyddo'r casgliadau a gedwir gan warchod diwylliant a threftadaeth unigryw'r sir.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang** - Blaenoriaethau 1.1, 1.2, 2.1, 2.3, 2.4
Cyfrannir drwy dderbyn, rhoi mynediad a hyrwyddo'r defnydd o gofnodion cyhoeddus a swyddogol sy'n sicrhau fod safleoedd yn cael eu dwyn i gyfrif.

Cyfrannir i'r amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol drwy'r gweithgareddau canlynol:
*(Gellir gweld y gweithgareddau a rifir yn llawn yn y blaengynllun ar tudalennau 12 - 20)*

**Tlodi, Economi, Tai**
*E3. Cydymdrechu yn erbyn tlodi* – Blaenoriaeth 2.4.8
Cyfrannir drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau Cyfuno'r sir a rhoi cyfleon a phrofiadau i deuluoedd sydd yn anodd i'w cyrraedd.
*E7. Safle Treftadaeth y Byd – Blaenoriaeth 2.4.16*
Cyfrannir drwy gyfrannu a chyflwyno gwybodaeth i'r cais a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r cais.

**Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**
*I1. Cymunedau'r Hyrwyddo'r Gymraeg* - Blaenoriaethau 2.1, 2.3, 2.4
Cyfrannir drwy gyflwyno gwasanaeth yn y Gymraeg.
*I2. Y Gymraeg a Gwasanaethau cyhoeddus* – Blaenoriaethau 1.9, 1.11, 2.1, 2.4
Cyfrannir drwy gydweithio a gwasanaethau cyhoeddus eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
*FfG33. Ymgysylltu* – Blaenoriaeth 3.1
Cyfrannir drwy ofyn barn y cyhoedd am ein Gwasanaeth drwy holiaduron mewnol a chenedlaethol
*FfG4. Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth* – Blaenoriaethau 1.4, 1.5, 1.6, 1.10
Cyfrannir drwy ddigido ac ôl-ddigido casgliadau ar ein safle gwe a drwy yr Archives Hub yn ogystal a digido deunydd gwreiddiol.

## Adolygiad o Blaengynllun 2015-2017

Mae'r Gwasanaeth wedi llunio Blaengynllun yn nodi blaenoriaethau'r gwasanaeth ers 2014. Cyn hynny lluniwyd rhaglen waith cyffredinol. Dogfennau mewnol yn unig yw rhain a luniwyd mewn trafodaeth gyda staff y Gwasanaeth, yr Uwch Reolwr a'r Pennaeth Gwasanaeth.

**Beth a gyflawnwyd:**

Mae nifer o weithgareddau'r Gwasanaeth yn rhai parhaol yn sgil natur y weithgaredd sydd yn cael ei llywio gan faint ein casgliadau a'r defnydd ohonynt. Ond hefyd ceir gweithgareddau sydd yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod y prosiect yn unig. Nodir isod ddetholiad o'r uchafbwyntiau:

- Cychwynnwyd ar y gwaith i ôl-ddigido'r casgliadau bychan a'r llyfrau derbynodi ar CALM, a bydd y gwaith hwn yn fodd i gryfhau ein trefniadau derbynodi ac yn fodd i ehangu mynediad i'r casgliadau.
- Cydweithwyd gyda Storiel – Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ar 4 arddangosfa newydd yn eu cartref newydd yn dilyn grant gan Gronfa treftadaeth y Loteri yn ogystal a chyfrannu deunydd ar gyfer pwrpas dehongli yn eu orielau newydd.
- Cydweithiwyd gydag Archifdy Môn ac Amgueddfa Forwrol Caergybi i lunio arddangosfa ddigidol yn dehongli y berthynas rhwng Cymru a Gwrthryfel y Pasg yn Iwerddon
- Cydweithiwyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri a phwyllgor lleol i greu hysbysfyrddau yn dehongli Gwersyll Frongoch ble carcharwyd nifer o Wyddelod yn dilyn Gwrthryfel y Pasg.
- Cyhoeddir 'Cymru a'r Môr' yn flynyddol, sef cyfnodolyn sy'n dathlu hanes morwrol Cymru. Dathlwyd 40 mlynedd o gyhoeddi yn 2016 drwy gydweithio gyda'r Amgueddfa Genedlaethol drwy lunio arddangosfa.
- Fel rhan o Rwydwaith Cyfuno'r sir cynhaliwyd sesiynau Llofnod Dysgu Teulu gyda theuluoedd o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, a lluniwyd arddangosfa ddoe a heddiw.
- Yn dilyn grant gan NMCT yn 2015 atgyweiriwyd cyfres o gynlluniau'r artist Reginald Hallward. I hyrwyddo'r gwaith cynhaliwyd cyfres o weithdai gwaith gwydr gyda'r artist Rhian Haf yn ysgolion ardal Meirionnydd.

Mae rhai cyfleoedd wedi codi yn ystod y flwyddyn a bum yn ffodus i:

- Brynu CALM View yn dilyn tanwariant
- Cymryd rhan yng ngweithgareddau 'Y Penwythnos Anferthol' i goffau Roald Dahl yn 100 oed
- Cydweithio ar brosiect Archifau gogledd Cymru i geisio adnabod blaenoriaethau a modelau cydweithio ar draws Gogledd Cymru.

**Be nad oedd modd cyflawni:**

Derbyniodd y Gwasanaeth doriadau yng nghyllideb 2016-2017 a bu cryn baratoi ar gyfer cynllunio ac yna gwireddu'r toriadau a gymerodd fwy o amser na ragwelwyd. Fe effeithiodd hun ar rai elfennau o'r Blaengynllun ble nad oedd modd rhoi'r un adnoddau amser:

- Yn dilyn diffyg amser ni sefydlwyd tudalen Facebook na Twitter. Rhaglenni'r hyn bellach ar gyfer 2017-2019 .
- Yn ogystal nid yw'r niferoedd o safbwynt nifer gwirfoddolwyr yn Archifdy Meirionnydd mor llewyrchus â niferoedd Archifdy Caernarfon ac mae angen rhoi mwy o adnoddau amser yn ystod 2017-2019 i gyflawni hyn.

Hefyd:

- Ni fuom yn llwyddiannus yn denu nawdd i gatalogio un o'n casgliadau mwyaf sydd heb ei gatalogio, sef casgliad cyfreithwyr Breese Jones a Casson.
- Ni fu modd cydweithio gyda grŵp cymunedol Cofis Bach yn dilyn ymadawiad eu Rheolwr Prosiect ond mae trefniadau ar y gweill i gynnal prosiect yn ystod Haf 2018
- Ni fu modd cydweithio gyda Bryn Seiont Newydd ar brosiect Dementia ond mae trefniadau mewn lle i gynnal prosiect tebyg yng Nghartref Plas Maesincla.

Er y bu'r cyfnod dan sylw yn anodd o safbwynt toriadau bu'r Gwasanaeth yn ffodus i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gan gryfhau cysylltiadau cymunedol a chynllunio yn strategol o safbwynt mynediad ehangach i'r casgliadau.

Blaengynllun 2017-2019

Fel y nodir eisoes lluniwyd y Blaengynllun mewn cydweithrediad â staff y Gwasanaeth Archifau, yr Uwch Reolwr a'r Pennaeth Gwasanaeth. Yn ogystal ystyrir unrhyw adborth gan y cyhoedd yn dilyn unrhyw ymgynghoriad. Dogfen ddatblygol yw'r cynllun ac yn ystod y cyfnod gall nifer o weithgareddau eraill gael eu hychwanegu, ond ar hyn o bryd rhain yw'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio, neu a ragwelir yn datblygu yn ystod y cyfnod.

# GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD - Blaenoriaethau 2017-2019

| Blaenoriaeth | Maes | Disgrifiad | Tasgau | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.Casglu, Cadw, Rhannu – Gwarchod dogfennaeth archifol Gwynedd drwy: | 1.1 Derbynodi | Derbynodi deunydd a dderbynnir | Derbynodi ar CALM a chadw llyfr derbynodi cyfredol | Prif Archifydd | Parhaol |
| | 1.2 Catalogio | Catalogio deunydd a dderbyniwyd a chasgliadau sydd eisoes wedi eu derbyn | Catalogio ar sail blaenoriaeth | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd | Parhaol gyda thargedau |
| | 1.3 Mynegeio | Mynegeio deunydd wedi eu hadnabod | Mynegeio ar sail blaenoriaeth | Cymhorthion Archifau Caernarfon (2)<br>Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd<br>Cymhorthydd Archifau Meirionnydd | Parhol gyda thargedau |
| | 1.4 Ôl-ddigido catalogau a llyfr derbynodi | Mewnbynnu llyfrau derbynodi cynnar a chasgliadau ar CALM | Casgliadau wedi eu hadnabod | Cymhorthydd Archifau Caernarfon<br>Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd | Parhaol gyda thargedau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.5 Ychwanegu at gatalog ar-lein RHAGOROL | Golygu casgliadau | Casgliadau wedi eu dethol | Cymhorthydd Archifau Caernarfon<br>Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd | Parhaol gyda thargedau |
| 1.6 Digido Casgliadau | Digido casgliadau lluniau Meirionnydd | Deunydd wedi ei ddethol | Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd | Parhaol gyda thargedau |
| 1.7 Rheoli casgliadau | Caernarfon: chwynnu casgliadau<br>Meirionnydd: chwynnu a symud casgliadau | Casgliadau wedi eu dethol | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd<br>Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd<br>Cymhorthydd Archifau Caernarfon | Parhaol gyda thargedau |
| 1.8 Cynnal Gwasanaeth Cadwraeth | Gweithredu gwaith cadwedigaeth a blaenoriaethu gwaith cadwraeth | Rhaglen Waith lawn wedi ei osod i'w gweld ar wahân | Swyddog Cadwraeth | Parhaol gyda thargedau |
| 1.9 Cydweithio gyda Chyngor Archifau Cymru | Ymchwil / prosesau cadwedigaeth ddigidol | Profi'r meddalwedd | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon | Parhaol |
| 1.10 Cydweithio gyda Chyngor Archifau Cymru | Ychwanegu at yr Archives Hub | Adnabod casgliadau sydd ar CALM | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon | Parhaol |
| 1.11 Cydweithio gyda sefydliadau cyhoeddus i dderbyn cofnodion cyhoeddus yn unol â'r ddeddf | Blaenoriaethu dogfennau Bwrdd Iechyd | Trefnu ymweliadau cychwynnol â safleoedd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gyda Swyddog Llywodraethol Corfforaethol y Bwrdd | Prif Archifydd | 2018-2019 |
| 1.12 Gosod CALM View | Cynnal gwaith cefndirol i sefydlu CALM View ar y wefan gyhoeddus | Penderfynu ar edrychiad a cynnwys | Prif Archifydd a Swyddogion TG | 2018-2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1.13 Gweithio tuag at Safon Achredu | Cwblhau'r safon | Adnabod bylchau ac ail-gyflwyno polisïau | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd<br>Swyddog Cadwraeth<br>Swyddog Addysg | Mawrth 2018 |
| 2. Rhannu, Cydweithio a Hyrwyddo – Rhoi mynediad at ddogfennau archifol Gwynedd drwy: | 2.1 Cynnal ystafelloedd ymchwil | Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol i sicrhau mynediad sy'n gymesur â safonau a defnydd | Staffio 2 ystafell ymchwil | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd<br>Uwch Gymhorthydd Archifau Meirionnydd<br>Cymhorthion Archifau Caernarfon a Meirionnydd (3) | Parhaol |
| | 2.2 Cynnal Gwasanaeth Addysg i ysgolion | Cydweithio ag ysgolion | Rhaglen Waith manwl wedi ei lunio ar wahân | Swyddog Addysg | Parhaol gyda thargedau |
| | 2.3 Hyrwyddo casgliadau a'r Gwasanaeth | 2.3.1 Cynnal gwaith estyn o fewn y swyddfeydd | Cynnal cyrsiau hanes teulu<br>Cynnal sesiynau blasu cyffredinol<br>Cynnal sesiynau blasu manwl | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd | Caernarfon: 2 y flwyddyn<br>Meirionnydd: Chwarterol |
| | | 2.3.2 Gwaith ymgysylltu yn y gymuned | Sgyrsiau yn ôl y gofyn | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd | Yn ôl y gofyn |
| | | 2.3.3 Sefydlu a chynnal Facebook a Twitter | Dethol cynnwys | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd | Mawrth 2018→ |
| | 2.4 Hyrwyddo casgliadau a'r Gwasanaeth drwy gyd-weithio ag eraill | 2.4.1 Erthygl fisol yn y 'Caernarfon and Denbigh Herald' | Dethol cynnwys yn fisol | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon | Misol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2.4.2 Erthyglau Chwarterol i'r 'Cambrian News' a'r 'Dydd' | Dethol cynnwys | Archifydd Meirionnydd | Chwarterol |
| | 2.4.3 Erthyglau chwarterol i 'Gwreiddiau Gwynedd' | Dethol cynnwys | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Archifydd Meirionnydd | Chwarterol |
| | 2.4.4 Arddangosfeydd ar y cyd â Storiel | I'w drefnu | Archifydd Caernarfon | I'w drefnu |
| | 2.4.5 Cymryd rhan yn 'Drysau Agored' - Cadw | Adnabod gweithgareddau i hyrwyddo'r diwrnod a thargedu grwpiau perthnasol | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd (2)<br>Uwch Gymhorddydd Archifau Meirionnydd<br>Cymhorthyddion Archifau Caernarfon a Meirionnydd (3) | Medi 2017<br>Medi 2018 |
| | 2.4.6 Cymryd rhan yn 'Diwrnod Meddiannu Cenedlaethol' | Adnabod Ysgol yn ardal Dwyfor. Adnabod gweithgareddau | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon<br>Swyddog Addysg<br>Swyddog Cadwraeth | Tachwedd 2017<br>Tachwedd 2018 |
| | 2.4.7 Cydweithio gyda Phlas Maesincla a'r Uned Gelf Gymunedol | Gweithgaredd atgofion i gleifion dementia | Prif Archifydd | Ionawr – Mawrth 2018 |
| | 2.4.8 Partneriaeth Cyfuno Gwynedd | Adnabod cynulleidfa<br>Cynnal gweithgareddau | Prif Archifydd<br>Swyddog Addysg | Ionawr –Mawrth 2018 |
| | 2.4.9 'Diwrnod Darganfod - Cydweithio gydag Edau i gynnal gweithdy i athrawon | Adnabod deunyddiau<br>Cynnal gweithdy | Prif Archifydd<br>Swyddog Addysg | Chwefror 2018 |
| | 2.4.10 Cydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ISWE ar brosiect Penrhyn | Adnabod deunydd a cynnal Sesiynau blasu i wirfoddolwyr | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon | Chwefror – Mawrth 2018 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2.4.11 Cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Dolgellau | Dethol deunydd | Archifydd Meirionnydd | Mawrth 2018→ |
| | 2.4.12 Cydweithio â Chymdeithas Hanes Sir Gaernarfon | Dethol cynnwys ar y thema teithwyr yn Eryri yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Prif Archifydd<br>Archifydd Caernarfon | Hydref 2018 |
| | 2.4.13 Cydweithio gyda grŵp cymunedol ar brosiect morwrol | Adnabod cynulleidfa, deunyddiau, a gweithgaredd | Prif Archifydd<br>Swyddog Addysg | 2018 |
| | 2.4.14 Prosiect Lle Arbennig – Dyffrynnoedd Llechi Gwynedd | Adnabod deunydd a cynnal gweithgareddau | Swyddog Addysg | 2018 |
| | 2.4.15 Cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri ar prosiect Carneddau | Adnabod deunydd cynnal gweithgaredd | Prif Archifydd | 2018 - 2019 |
| | 2.4.16 Cydweithio gydag adrannau ac unedau eraill y Cyngor | • Safle Treftadaeth y Byd - diweddaru Llechwefan, cyflwyno gwybodaeth, cynnal gweithgareddau<br>• Fforwm Treftadaeth - cyfrannu tuag at weithgareddau'r fforwm | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Parhaol |
| | 2.4.17 Cydweithio gydag Uned Gyfathrebu'r Cyngor gyda'i chyfrif Twitter/ Instagram ar gyfer 'Throwback Thursday' | Adnabod deunydd | Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Parhaol |
| | 2.4.18 Cydweithio gyda Chyngor Archifau Cymru ar brosiect marchnata | Adnabod gweithgareddau ar gyfer 'Archwilio Eich Archif' | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Parhaol |
| 2.5 Gwirfoddolwyr | 2.5.1 Parhau gyda phrosiect morwrol Caernarfon. | Cynnal sesiynau gwirfoddolwyr<br>Llunio dogfennaeth addas | Prif Archifydd | Mehefin 2017 → |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sefydlu prosiect cadwedigaeth ym Meirionnydd. | Adnabod deunydd | Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | |
| | | 2.5.2 Curadu blychau arddangos y 2 safle | Dethol a dehongli deunydd | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Rhagfyr 2017 → |
| | | 2.5.3 Cydweithio i lunio arddangosfa yn seiliedig ar ddeunydd y Rhyfel Byd Cyntaf | Chwilio am nawdd, dethol a dehongli deunydd ac ysgrifennu testun | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Ionawr 2018 |
| | | 2.5.4 Ymchwilio y syniad o sefydlu grŵp gwirfoddolwyr rhith | Cynnal ymchwil o sefydliadau sydd eisoes wedi cynnal gweithgaredd tebyg | Prif Archifydd | Ebrill 2018 |
| | | 2.5.5 Cael cymorth i gynnal Facebook a Twitter | Adnabod gwirfoddolwyr addas<br>Adnabod deunydd | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Mehefin 2018 → |
| | | 2.5.6 Curadu arddangosfeydd digidol | Dethol deunydd ac ysgrifennu testun | Prif Archifydd<br>Archifyddion Caernarfon a Meirionnydd | Mehefin 2018→ |
| 3. Cyfrannu a Chydweithio Corfforaethol | 3.1 Cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol | 3.1.1 Gwireddu Ffordd Gwynedd | Hunan-herio<br>Gofyn barn y cyhoedd | HOLL STAFF | Parhaol |
| | | 3.1.2 Cyfrannu tuag at Cymunedau Cryf | Cyfrannu tuag at gyd-weithio a chasglu mesuryddion | Prif Archifydd | Parhaol |
| | | 3.1.3 Bod yn gyfrifol am hunanddatblygiad | Gwerthuso staff<br>Hyrwyddo sesiynau e-ddysgu a Dysgu a Datblygu<br>Hyrwyddo cyrsiau MALD | HOLL STAFF | Parhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 Gweithredu cytundeb Lefel Gwasanaeth Addysg | Cytundeb 3 mlynedd i ariannu yn rhannol y Gwasanaeth Addysg | Cyflwyno cytundeb mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg | Prif Archifydd Swyddog Addysg | Ebrill 2017 |
| 3.3 Cydweithio gyda Gwasanaethau Archifau y Gogledd | Cydlynu'r grŵp | Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cytuno ar flaenoriaethau. | Prif Archifydd Uwch Reolwr Economi a Chymuned | Ebrill 2018→ |